Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meinir Charles**

**Llanelli**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/01/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu "Cynnig Rhagweithiol" o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ddefnyddio'r gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Good** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Good** |
| **Yr Amgylchedd** | **Good** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Good** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau ac mae eu diddordebau yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn hapus, yn ddiogel ac yn datblygu eu hannibyniaeth a'u sgiliau yn llwyddiannus.

Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi plant yn dda ac yn diwallu eu hanghenion yn effeithiol. Mae ganddi ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, ac mae ganddi asesiadau risg pwrpasol. Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau hyfforddiant yn rheolaidd ac mae ganddi ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn cwrdd â rheoliadau. Mae'r safle mewnol a'r ardal allanol yn cynnig amgylchedd da ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r ardaloedd tu fewn ac yn yr awyr agored yn hyrwyddo annibyniaeth y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gwasanaeth sydd yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol ac yn cwrdd â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'n gwreiddio naws a diwylliant Cymraeg ac yn cwrdd â'i chyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae ganddi bartneriaethau cryf â rhieni ac yn darparu gwasanaeth casglu o ysgolion lleol.

## Llesiant — Good

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio nhw. Mae safbwyntiau a diddordebau'r plant yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu gweithredu arnynt. Mae llais y plentyn yn gryf a gwelsom blant yn cael cyfleoedd i ddewis dros eu hunain. Er enghraifft, cawsant ddewis eu chwarae, dewis pan oeddent wedi cael digon o fwyd a dewis eu hadnoddau o'r cyntedd.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Maent yn ymdopi yn dda iawn â bod ar wahân o'u teuluoedd. Gwelsom blant yn symud o amgylch y safle yn hyderus a chyfforddus ac yn cael y cyfle i fod yn brysur yn ei chwarae, neu i ymlacio. Mae'r plant yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Er enghraifft, gwelsom blant yn mwynhau gweithgaredd creu blodau. Gwelsom ddau blentyn yn teimlo'n gysurus ac yn ddiogel wrth iddynt eistedd ar ben-glin y gwarchodwr plant i gael stori. Mae gan blant ymdeimlad o berthyn ac maent yn meithrin cydberthnasau da gyda'u cyfoedion a'r gwarchodwr plant. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r gwarchodwr plant yn gyson ac mae'r plant yn cydweithio'n dda gan ddangos diddordeb wrth iddynt gymryd rhan. Mae'r plant yn dangos parch at ei gilydd ac yn dangos diddordeb yng ngwaith ei gilydd. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd peintio roeddent yn cymryd tro ac yn gwylio ei gilydd. Gwelsom blant hŷn yn cynnig cefnogaeth i blant ifanc i gyflawni tasgau ac estyn adnoddau. Mae'r plant yn gyfforddus ac yn hyderus i drafod, cwestiynau, dewis a gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd. Yn ystod amser byrbryd, dywedodd plentyn "*Fi moen fwy o blueberries plîs",* a hyn yn cael sylw ar unwaith.

Mae'r plant yn frwdfrydig yn eu chwarae. Er enghraifft, gwelsom blant yn mwynhau chwarae gyda'r adnoddau oedd ar gael iddynt yn yr ystafell fyw fel y teganau cludiant a blociau, neu'r adnoddau oedd ar gael iddynt wedi eu storio yn y cyntedd fel jig-sos a gemau.

Mae'r plant yn rhydd i archwilio eu hamgylchedd. Maent yn dewis pryd maent yn dymuno mynd i'r tŷ bach, ac yn annibynnol wrth gyflawni hyn. Gwelsom ystod o brofiadau dysgu'r plant wrth i ni weld lluniau o weithgareddau ac ymweliadau lleol. Er enghraifft, lluniau o'r plant yn y parc yn arbrofi gyda iâ ac yn y gerddi a choedwig yn archwilio.

| Gofal a Datblygiad | Good |
|---|---|

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei pholisïau a'i gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol a diogelwch a llesiant personol, ac mae'r polisïau yma ar waith. Mae'n nodi risgiau ac yn mynd ati i'w rheoli. Gwelsom ystod o asesiadau risg manwl o fewn ffeiliau unigol y plant, gyda'r rhieni wedi arwyddo'r rhain fesul un. Maent yn berthnasol i'r safle ac i'r ystod o ymweliadau, ac yn gywir a chlir. Mae'r gwarchodwr plant yn gweithredu arferion cadarn o ran hylendid. Er enghraifft, mae'n dilyn gweithdrefn newid cewyn neu defnyddio'r tŷ bach. Mae hefyd yn ymwybodol o weithdrefnau diheintio'r mat newid ac yn golchi dwylo ar bob cyfle. Yn y tŷ bach, mae papurau sychu dwylo ynghyd a sebonau ar gael i'r plant ac maent yn cael eu hannog i fod yn ymwybodol o bwysigrwydd golchi dwylo cyn snac ac yn dilyn gweithgareddau crefft. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu bwydlen sydd yn cynnwys bwydydd cartref a gwelsom amser snac lle baratowyd byrbryd o dost, banana a llus. Mae'r gwarchodwr plant yn paratoi cwpanau o laeth i blant yn ogystal â fflasgiau o ddiodydd unigol y plant. Ar gyfer ymweliadau, mae'n paratoi prydiau bwyd twym fel cawl mewn fflasg fawr er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gael bwydlen gyflawn. Mae'r dystysgrif diogelu yn gyfredol ac mae'r polisïau diogelu a Prevent yn eu lle ac yn gywir.

Mae'r gwarchodwr plant yn dangos cynhesrwydd, charedigrwydd ac yn sensitif i anghenion plant unigol. Mae iaith eu cartrefi yn cael ei hyrwyddo ganddi. Mae'n gwrando ar farnau'r plant ac mae eu dymuniadau a'u syniadau yn cael eu parchu. Clywsom gyfathrebu clir yn ystod amser byrbryd. Er enghraifft, "*Ti moen rhagor o laeth – dim 'to?"* Gwelsom arddull y gwarchodwr plant wrth gynnal amser stori gan ddefnyddio cwestiynau agored lle roedd y plant yn cyfrannu'n hyderus. Cynigwyd cyfleoedd i blant gael bod yn annibynnol a gwneud dewisiadau. Er enghraifft, "*dewch i ddewis beth chi moen o'r bocsys bois,"* a *"beth gewn ni i ginio heddiw?"*

Mae'r gwarchodwr plant yn nabod y plant yn dda iawn ac yn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd eang i ddatblygu drwy eu chwarae a dysgu. Mae ganddi ystod o adnoddau ar gyfer y plant yn ei gofal, ac yn paratoi cyfleoedd iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau diddorol sydd wedi eu cynllunio yn ôl eu hoedran, datblygiad a diddordebau. Er enghraifft, bocsys llawn blociau, gemau, jig-sos a llyfrau dwyieithog. Mae ganddi ddealltwriaeth dda iawn o ddatblygiad plant, a'r ffordd mae hyn yn effeithio ar eu dysgu ac ar ymddygiad plant. Gwelsom amserlen llawn gweithgareddau a phrofiadau sydd yn cynnwys peintio, coginio, gwaith crefft, chwarae tu allan, neu ymweliad. Gwelsom blant yn gwisgo ffedogau ar gyfer gweithgareddau peintio wrth baratoi platiau cwningen arbennig fel rhan o thema'r wythnos sef, Blwyddyn Newydd Tsieineaidd. Gwelsom gynllunio ar gyfer yr wythnos ganlynol i gynnwys cyfleoedd i'r plant fwyta nwdls a phrofi blasau newydd. Ers yr arolwg diwethaf, mae'r gwarchodwr plant wedi mynychu cwrs i fesur ansawdd y ddarpariaeth a'r arfer yn ogystal a hyfforddiant i ddatblygu sgiliau corfforol plant yn y blynyddoedd cynnar.

## Yr Amgylchedd **Good**

Mae’r gwarchodwr plant yn cynnig amgylchedd sydd wedi addasu yn ofalus gyda lefel dda iawn o ddiogelwch. Mae’r lleoliad o dan glo ar bob adeg. Mae’r plant yn cael y rhyddid i symud yn annibynnol o amgylch yr ystafell fyw a’r cyntedd. Mae giât yn gwahanu’r ystafelloedd byw a bwyta i’r gegin. Ni welwyd y plant yn chwarae tu allan ar ddiwrnod yr ymweliad oherwydd y rhew, ond gwelsom ardal allanol ddiogel sydd yn cynnig darpariaeth o safon wedi ei gau o fewn ffens ddiogel. Dywedodd y gwarchodwr plant ei bod yn gosod ‘gazebo’ tu allan yn ystod y tywydd heulog, er mwyn i’r plant gael chwarae tu allan yn y cysgod. Mae yna giât ddiogel wrth ochr y tŷ. Mae’r rhieni yn gallu casglu plant o fan hyn, sydd yn arbed y gwarchodwr plant rhag gadael y plant adeg casglu.

Gwelsom blant yn annibynnol wrth iddynt gael rhyddid i symud o fewn yr ardaloedd chwarae. Ni welwyd trefniadau cyrraedd plant, ond roedd yna broses clir o storio cotiau a bagiau yn y cyntedd, ynghyd a chofnod o amseroedd cyrraedd a gadael bob plentyn mewn dyddiadur. Mae’r gwarchodwr plant yn sicrhau bod asesiadau perygl tân mewn lle a gwelsom cofnodion y driliau tân a oedd yn nodi sylwadau ar y dril diweddaraf. Gwelsom ddarpariaeth tân wedi eu gosod yn ddiogel ar wal y gegin ac yn gweithio’n gywir. Mae’r gwarchodwr plant yn sicrhau bod nifer y plant sydd yn derbyn gofal yn cwrdd â gofynion Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac yn goruchwylio plant yn dda iawn. Mae ymwelwyr yn arwyddo dyddiadur a gwelsom ffeil gynhwysfawr sydd yn cynnwys holl ddogfennaeth reoliadol y gwasanaeth. Er enghraifft tystysgrifau’r safle, y car a hyfforddiant cyfredol fel diogelu, cymorth cyntaf a hylendid bwyd. Dywedodd y gwarchodwr plant ei bod wedi cadw’r polisi i gadw rhieni wrth y drws gan fod hwn yn hwyluso’r broses i blant a rhieni ac yn cynnig lefel uwch o ddiogelwch.

Mae’r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y safle mewnol a’r ardal allanol yn ddiogel ac yn cynnig amgylchedd da ar gyfer chwarae a dysgu. Mae’r safle hefyd yn cynnig ardaloedd storio ac mae gan blant mynediad i adnoddau chwarae a chrefft. Mae gwaith papur y gwasanaeth yn cael ei gadw’n gyfrinachol o dan glo mewn cabinet ffeilio ar y safle.

Mae’r gwarchodwr plant yn darparu ystod o adnoddau da sydd yn ennyn chwilfrydedd y plant ac yn caniatáu i bob plentyn gweld a chyffwrdd yn rhwydd. Mae’r ardal chwarae awyr agored yn cynnig darpariaeth o safon. Dywedodd y gwarchodwr plant bod rhieni yn hapus i’w plant ifanc i gysgu mewn bygis neu yn eu seddau car wrth deithio i’r ysgol neu ar ymweliadau. Gwelsom babi yn cysgu yn y bygi yn yr ystafell fyw.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Good

Mae gan y gwarchodwr plant flynyddoedd o brofiad gofal, ynghyd a gweledigaeth glir ar gyfer ei gwasanaeth, ac yn rhannu hwn gyda'r plant a rhieni drwy ddarparu polisïau clir a datganiad o ddiben sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth. Mae'n sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol ac yn cwrdd â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r gwarchodwr plant yn wybodus am ei chyfrifoldebau ac yn drefnus o ran adolygu polisïau, tystysgrifau, cadw gwybodaeth a chofnodion. Er enghraifft, gwelsom gofnodion damweiniau a chofnodion gweinyddu meddyginiaeth gywir, yn adlewyrchu gweithdrefnau diogelu clir y lleoliad. Mae'r gwarchodwr plant wedi gwreiddio naws a diwylliant hollol Gymraeg ac yn cwrdd â'i chyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg, yn parchu bob plentyn yn ei gofal.

Mae'r gwarchodwr plant yn gwerthuso'r gofal ac yn cwblhau adroddiad ansawdd gofal bob blwyddyn. Gwelsom holiaduron wedi eu cwblhau gan rieni a'u plant a dywedodd y gwarchodwr plant ei bod yn y broses o greu nodau clir ar gyfer datblygiad pellach. Mae'r weledigaeth ar gyfer datblygu yn barhaol, yn dda a phwrpasol.

Mae'r gwarchodwr plant wedi sefydlu ac yn cadw partneriaethau cryf gyda theuluoedd ynghyd a rhwydwaith o warchodwyr plant eraill. Gwelsom ystod o gardiau diolch yn cynnwys negeseuon yn nodi gwerthfawrogiad teuluoedd am y gofal arbennig mae eu plant yn derbyn. Mae gan y gwarchodwr plant bartneriaethau da gyda thair ysgol leol drwy ddarparu gwasanaeth casglu dibynadwy. Mae car y gwasanaeth yn cynnwys seddau diogel ar gyfer y pwrpas yma. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym am effeithiolrwydd rhannu gwybodaeth, gweithgareddau ac achlysuron ar safle diogel gyda rhieni, a gwelsom enghraifft o hyn ar ddiwrnod yr ymweliad wrth weld lluniau.

## Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Ychwanegwch R1. R2. ac ati a'r geiriad sydd ei angen â llaw. Nid rheoliadau yw'r rhain, ond safonau gofynnol cenedlaethol.

Nid oes unrhyw argymhellion.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| 30 | Not recording attendance times of children | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 28/03/2023